

Taith — Gwybodaeth i Ysgolion

Rhaglen gyfnewid ryngwladol newydd gwerth £65 miliwn ar gyfer ysgolion, sefydliadau ieuencid, colegau AB, addysg oedolion a phrifysgolion yw Taith. A hithau wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, nod Taith yw llenwi bylchau a grëwyd yn sgîl ymadawiad y DU o Erasmus+ yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd i ddysgwyr a staff o bob cwr o Gymru fynd ar deithiau cyfnewid ledled y byd, ac ariannu cyfnewidiadau cyfatebol gan ddod â dysgwyr a staff o bob cwr o'r byd i Gymru.

Amcanion Taith yw:

- Cyflwyno rhaglen gynhwysol, Cymru-gyfan er mwyn annog rhagor o bobl i gymryd rhan cyfnewidiadau rhyngwladol, ehangu gornelion a hyder pobl ifanc, dysgwyr a staff ar bob lefel yng Nghymru, rhoi cyfleoedd iddyn nhw sy'n gwella eu bywydau yn ogystal â'u cefnogi i fod yn uchelgeisiol ac yn ddysgwyr galluog drwy gydol eu bywydau.
- Hyrwyddo gwaith ar y cyd rhwng sefydliadau Cymreig a rhyngwladol fydd yn golygu bod cyfnewidiadau dysgu dwyffordd yn fuddiol i bawb sy'n cymryd rhan, meithrin cysylltiadau rhyngwladol, yn ogystal â chefnogi'r sectorau addysg, gan gynnwys gwaith ieuencid ac addysg oedolion.
- Annog gweithgareddau uchelgeisiol, arloesol a chreadigol o'r radd flaenaf ym maes cyfnewidiadau a chydweithio o ran addysg ryngwladol.
- Codi proffil rhyngwladol Cymru yn genedl agored, eangfrydig a chyfrifol yn fyd-eang, sydd wedi ymrwymo i ychwanegu at ei hetifeddiaeth o bartneriaethau a chysylltiadau rhyngwladol.
- Helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran trawsnewid rhaglenni ymgysylltu rhyngwladol a datblygu rhagoriaeth yn y sectorau addysg rhyngwladol ac ieuencid, a hynny drwy gamau cynaliadwy fydd o les i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol yng Nghymru.

Mae cyllid ar gael mewn 3 llwybr gwahanol:

- Llwyr 1 — Symudedd
- Llwyr 2 — Partneriaeth a Chydweithio Strategol
- Llwyr 3 — Meithrin Capasiti

Llwyr 1 fydd y cyntaf i agor, a bydd y cyfnod ymgeisio ar agor o ddechrau mis Mawrth. Bydd y galwadau am gyllid ar gyfer Llwyr 2 a 3 yn agor ychydig yn ddiweddarach eleni.

Llwyr 1 - Symudedd y sawl fydd yn cymryd rhan

Mae symudedd rhyngwladol yn golygu bod y sawl sy'n cymryd rhan yn gallu datblygu sgiliau a chymwyseddau allweddol a phrofi diwylliannau ac ieithoedd newydd tra'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant ledled y byd ar yr un pryd. Boed yn gyfnewid diwylliannol, yn ymweliadau ag ysgolion, cysgodi swyddi, yn gyrsiau hyfforddi neu unrhyw brofiad dysgu arall, bydd yr ysgolion yn gallu gwneud cais i Taith am gyllid.



Cyfleoedd i staff yr ysgolion

Bydd gan Taith gyllid i alluogi symudedd allanol a mewnol yn achos athrawon, arweinwyr ysgol a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes addysg yn yr ysgolion, a bydd cyfleoedd hyblyg i:

- Addysgu mewn ysgol sy'n bartner
- Cysgodi swydd mewn ysgol sy'n bartner neu sefydliad perthnasol arall
- Cael hyfforddiant neu ddatblygiad proffesiynol mewn sefydliad perthnasol
- Cymryd rhan mewn prosiectau datblygu systemau — (er enghraifft gweithio ar y cyd i ddatblygu agweddau ar y cwricwlwm newydd)

Cyfleoedd i Ddisgyblion

Yn ogystal â symudedd staff, bydd Taith yn ariannu ysgolion i gynnig cyfleoedd tramor i ddisgyblion. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Symudedd ar sail grŵp
- Symudedd ar sail unigol (mwy nag 16 oed)
- Symudedd ar sail grŵp cyfunol
- Cyfnewidiadau rhithwir

Cefnogaeth i ysgolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais

Rydyn ni'n deall y gall trefnu symudedd tramor fod yn frawychus ac felly bydd yr ysgolion yn gallu cael cymorth er mwyn dod o hyd i bartneriaid, llenwi ceisiadau a rheoli prosiectau. Ein nod yw sicrhau bod y cyllid mor gynhwysol a hawdd ei gyrraedd â phosibl ac felly byddwn ni'n cynnig cyllid ychwanegol ar gyfer disgyblion o dan anfantais a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â chynnig ystod o gyfnodau hyblyg.

Os hoffech chi ddysgu rhagor am raglen Taith ewch i (www.taith.cymru) neu e-bostiwch Ellie Bevan, Rheolwr Rhaglen Ysgolion ac Ieuencid Taith yn bevane@caerdydd.ac.uk